**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

1 Tachwedd 2023

Annwyl Mick,

Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023

Diolch am eich llythyr ar 12 Hydref 2023 a gafodd ei drafod yn ein cyfarfod ar 16 Hydref 2023. Rydym yn croesawu'r ymatebion a ddarparwyd gennych i'r cwestiynau a ofynnwyd gennym yn ein llythyr ar 22 Medi 2023.

Yn fy llythyr blaenorol, tynnais sylw at ohebiaeth gan Weinidogion eraill Cymru sy'n ymwneud â *Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023* (Deddf 2023) rydym wedi'i hystyried yn ystod yr wythnosau diwethaf. Bellach, rydym wedi cael ymatebion gan Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, a Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.

Buom yn trafod y wybodaeth a gawsom gennych chi a Gweinidogion eraill Cymru yn ein cyfarfod ar 23 Hydref 2023 a gwnaethom gytuno i ysgrifennu atoch eto o ystyried eich cyfrifoldeb cyffredinol yn Llywodraeth Cymru dros faterion cyfansoddiadol. Byddem yn croesawu rhagor o eglurder ar nifer o faterion pwysig; yn bennaf yr hyn sy'n ymddangos fel proses ceisio cydsyniad sy'n gweithio rhwng Gweinidogion y DU yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) a Gweinidogion perthnasol Cymru.

Rydym hefyd wedi cytuno i ysgrifennu at Weinidogion yn DEFRA i ofyn am wybodaeth am y cydsyniad y maent wedi gofyn amdano ar gyfer gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig o dan Ddeddf 2023.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu ymateb i'n cwestiynau pellach, sydd wedi'u cynnwys yn yr atodiad i'r llythyr hwn, erbyn 16 Tachwedd 2023.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Newid Hinsawdd a'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Atodiad

1. Yn eich llythyr atom ar 12 Hydref 2023, dywedoch wrthym “Nid yw Llywodraeth y DU a’r Llywodraethau Datganoledig wedi cytuno ar unrhyw fecanwaith ynghylch sut y dylid cael cydsyniad mewn perthynas â Gweinidogion y DU yn gwneud rheoliadau gan ddefnyddio pwerau yn Neddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023”. Mae’r llythyrau gan y Gweinidog Newid Hinsawdd a’r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd yn enghreifftiau o Weinidogion yn DEFRA yn gofyn am gydsyniad Llywodraeth Cymru cyn y bydd rheoliadau yn cael eu gwneud o dan Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir 2023. O ystyried eich bod yn dweud nad oes mecanwaith ar gyfer gofyn am gydsyniad o’r fath wedi’i gytuno:

   a. A ydych yn ymwybodol o adrannau penodol Llywodraeth y DU, megis DEFRA, yn gwneud cytundebau lleol a/neu drefniadau gydag adrannau perthnasol yn Llywodraeth Cymru ynghylch pryd a sut y bydd Gweinidogion y DU yn ymgysylltu â Gweinidogion Cymru ac yn gofyn am gydsyniad anffurfiol ganddynt cyn gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig o dan Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir 2023?

   b. Beth yw eich barn ar gytundebau a/neu drefniadau lleol o’r fath, os ydynt ar waith, a pha rôl ydych chi’n ystyried y byddant yn ei chwarae o ran eich camau i geisio mecanwaith sy’n berthnasol ar draws Llywodraeth y DU gyfan?

   c. Os oes cytundebau a/neu drefniadau adrannol yn eu lle, a fyddech cystal â rhoi’r manylion penodol i ni.

2. Yn ei llythyr atom ar 27 Medi 2023, mewn perthynas â Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr wedi’u Fflworeiddio (Diwygio) 2023, dywedodd y Gweinidog Newid Hinsawdd “Pe bai Gweinidogion Cymru wedi gwrthod cydsynio, neu heb gadarnhau eu penderfyniad yn yr amserlenni y gofynnwyd amdanynt, ni fyddai’r Rheoliadau wedi’u gosod gerbron Senedd y DU.” Gallai hyn gael ei ddehongli fel pŵer feto gan Weinidogion Cymru ynghylch a yw Gweinidogion y DU yn bwrw ymlaen â’u bwriadau rheoleiddio. Beth yw eich barn ar y mater hwn ac, yn benodol, ai dyma eich dealltwriaeth chi o’r telerau y gofynnodd yr Arglwydd Benyon am gydsyniad i wneud y Rheoliadau hyn?

3. Yn ei llythyr atom ar 3 Hydref 2023, mewn perthynas â Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Diwygiadau Amrywiol) 2023, dywedodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, “Er nad oes gofyniad cyfreithiol i ofyn am gydsyniad, mae Llywodraeth y DU wedi gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru yn unol â’r confensiwn ar ddeddfu mewn meysydd datganoledig.” Mae’n ymddangos bod hyn yn cymhwyso telerau Confensiwn Sewel i wneud is-ddeddfwriaeth. Beth yw eich barn ar y mater hwn ac,

yn benodol, ai dyma eich dealltwriaeth chi o'r telerau y gofynnodd Rebecca Pow AS, y Gweinidog dros Ansawdd a Chadernid Amgylcheddol, am gydsyniad ar gyfer gwneud y Rheoliadau hyn?

4. Yn eich llythyr atom ar 12 Hydref 2023, ac mewn ymateb i'n cwestiwn 2 ar adrannau Llywodraeth Cymru sy'n ymgymryd â gwaith i sicrhau nad oes angen cyfraith yr UE a ddargedwir a restrir yn yr Atodlen i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir mwyach, gwnaethoch chi ddweud: "Bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn y tîm canolog sy'n ymdrin â materion ôl-Brexit yn gweithio gyda thimau polisi unigol i sicrhau bod cynnwys yr Atodlen sy'n dirymu offerynnau yn addas i'r diben **pan gafodd ei llunio yn y cyfnodau olaf** yn Senedd San Steffan" (ychwanegwyd pwyslais). Nid yw'r datganiad hwn yn cyd-fynd â'r wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi i ni o'r blaen. Ar 2 Mehefin 2023 gwnaethoch chi ddweud wrthym "Nid oedd Llywodraeth y DU wedi gofyn i Lywodraeth Cymru gymryd rhan yn y gwaith o lunio'r rhestr o REUL yn yr Atodlen newydd. (...) Er bod rhywfaint o ymgysylltu ar lefel swyddogion wedi bod cyn i welliannau Llywodraeth y DU gael eu cyflwyno, nid oedd yr ymgysylltu hwn yn ddigon ystyrlon nac yn ddigon manwl i Lywodraeth Cymru allu gwybod beth fyddai ffurf y gwelliannau hynny na pha offerynnau a fyddai'n cael eu cynnwys yn yr Atodlen newydd sy'n cynnwys rhestr o REUL i'w dirymu. (...) Cafodd Llywodraeth Cymru gyfle i weld y rhestr lawn ar yr un pryd â'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad..." A fyddech cystal â chadarnhau a darparu'r eglurder angenrheidiol ynghylch a oedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn rhan o'r broses o lunio'r Atodlen i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir, fel y disgrifir yn eich llythyr diweddaraf, neu a yw'r datganiadau a wnaethoch ym mis Mehefin yn gywir ac nad oedd Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru wrth lunio'r rhestr o gyfreithiau'r UE a ddargedwir yn yr Atodlen honno.